

## Y Còd Cefn Gwlad

Cadwch at y Còd Cefn Gwlad bob amser a chofio'r canlynol:

### Parchu pobl eraill

- Ystyriwch y gymuned leol a'r bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch bob giât ac eiddo fel rydych yn eu canfod nhw
- Cadwch at lwybrau a thraciau sydd wedi'u marcio

### Gwarchod yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
- Cadwch gwn ar dennyn bob amser
- Peidiwch byth â chasglu nad adwreiddio planhigion

### Mwynhau'r awyr agored

- Cynllunio ymlaen llaw a bod yn barod
- Cadw at gyngor ac arwyddion lleol

## Countryside Code

Please follow the Countryside Code and always remember to:

### Respect other people

- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them
- Keep to marked paths and trails

### Protect the natural environment


- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs on a lead at all times
- Never pick or uproot plants

### Enjoy the outdoors

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs



## Lleoliad / Location



Mae'r warchodfa 3 milltir i'r de ddwyrain o Ruthun, rhwng Graigfechan a Phentre Coch ar y B5429. Parciwch ym maes parcio tafarn y Three Pigeons a gadewch £1 yn y bocs bychan wrth ymyl arwydd y dafarn i helpu i gynnal y maes parcio. Mae'r warchodfa ar hyd llwybr cyhoeddus y ceir mynediad iddo 100m i lawr i ffordd o'r dafarn ar y chwith (SJ 148 544). Dilynwch y llwybr troed tua'r gogledd am 500m i fynedfa'r warchodfa. **Map OS Explorer 265** what3words ///crimson.knees.system

The reserve is 3 miles SE of Ruthin, between Graigfechan and Pentre Coch on the B5429. Park in the Three Pigeons pub car park and please leave £1 in the small box by the pub sign to help maintain the car park. The reserve is along a public footpath accessed 100m down the road from the pub on the left (SJ 148 544). Follow the footpath N for 500m to the reserve entrance. **OS Explorer Map 265** what3words ///crimson.knees.system



Ymddiriedolaeth Natur  
Gogledd Cymru  
**North Wales  
Wildlife Trust**

[northwaleswildlifetrust.org.uk](http://northwaleswildlifetrust.org.uk)



**North Wales Wildlife Trust**

Llys Garth, Garth Road, Bangor, Gwynedd, LL57 2RT

01248 351 541

[info@northwaleswildlifetrust.org.uk](mailto:info@northwaleswildlifetrust.org.uk)

Registered Charity Number: 230772 / Company Number 773995

GWARCHODFA NATUR

# Graig Wylt

NATURE RESERVE



JORDAN HURST

## Cadwch mewn cysylltiad!

Ewch i'n gwefan ni am y newyddion diweddaraf a chofrestrwch i dderbyn ein e-gylchlythyr am ddim

## Stay in touch!

Visit our website for the latest updates and sign up today for your free e-newsletter

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)



Ymddiriedolaeth Natur  
Gogledd Cymru  
**North Wales  
Wildlife Trust**





## Clwyd greigiog, liwgar


Safle hyfryd wedi'i gysgodi gan goetir hynafol, yn llawn lliw y gwanwyn a gyda golygfeydd godidog ar draws Dyffryn Clwyd.

Mae coetir hynafol llawn derw ac ynn yn gorchuddio llethrau creigiog yr hen chwarel galchfaen hon, ac mae llawr y coetir yn llawn blodau'r gwanwyn. Wrth ddringo drwy'r coed, mae'r canopi'n agor yn raddol i olyniaeth o blanhigion: mae garlleg gwylt ('craf y geifr'), briallu a blodau'r gwynt yn trawsnewid i fwy o rywogaethau prysgwydd y glaswelltir fel tegeirian coch y gwanwyn, briallu Mair a chlychau'r gog. Ychydig ymhellach wedyn byddwch yn cyrraedd panorama'r glaswelltir, gyda golygfeydd anhygoel yn ymestyn i bob cyfeiriad. Mae'r gymysgedd hyfryd o goetir collddail, ardaloedd cysgodol o brysgwydd a glaswelltir yn gwneud y warchodfa gyfan yn lle gwych ar gyfer glöynnod byw, gan gynnwys y trilliw bach, y gweirlöyn brych a gweirlöyn y glaw.

## Craggy, colourful Clwyd

A lovely site sheltered by ancient woodland, awash with spring colour and with dazzling views across the Vale of Clwyd.

Oak- and ash-filled ancient woodland covers the craggy slopes of this former limestone quarry, and the woodland floor is filled with springtime flowers. Climbing up through the woods, the canopy gradually opens to a succession of plants: wild garlic ('ramsons'), primrose and wood anemone transition to more grassland scrub species such as early-purple orchid, cowslip and bluebell. A little further still and you reach the grassland panorama, with incredible views stretching out in all directions. The charming mixture of deciduous woodland, sheltered scrub areas and grassland make the whole reserve a great place for butterflies, including small tortoiseshell, speckled wood and ringlet.



Wrth i chi grwydro ar hyd llwybrau troellog y coetir, gwrandewch am gân holl adar y coetir, gan gynnwys titw'r gors, **titw'r helyg**, y gwybedog brith, sgrech y coed, y gnozell fraith fwyaf a thylluanod brech.

As you wander through the winding woodland paths, listen out for the calls of a whole host of woodland birds, including marsh tit, **willow tit**, pied flycatcher, jay, great spotted woodpecker and tawny owls.



Ar y copa, eisteddych yn y glaswelltir hardd a sganio'r awyr am adar mawr sy'n codi i'r entrychion fel **bwncath** neu farcud coch.

At the summit, sit down in the beautiful grassland and scan the sky for large, soaring birds like **buzzard** or red kite.

Anadlwch yn ddwfn wrth gerdded drwy'r canopi yn y gwanwyn – efallai y byddwch chi'n dal arogl cryf, priddlyd y **garlleg gwylt** sy'n carpedu'r ddaear yma.



Take a deep breath as you walk through the canopy in spring – you might catch the strong, earthy smell of the **wild garlic** which carpets the ground here.




Mae'r warchodfa'n rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy – ewch yn eich blaen yn ofalus tuag at y copa i gael golygfeydd godidog o Ddyffryn Clwyd.

The reserve is part of the Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) – carefully make your way towards the summit for stunning views of the Vale of Clwyd.

**Oeddech chi'n gwybod?** Mae cywion y dylluan frech, sydd i'w gweld yn aml yma yng Nghraig Wylt, yn gadael y nyth cyn iddynt allu hedfan! Maent yn ymestyn allan i'r ardal gyfagos fel amddiffyniad rhag ysglyfaethwyr posibl.

**Did you know?** Tawny owl chicks, often found here at Graig Wylt, leave the nest before they can fly! They branch out into the surrounding area as a defence against possible predators.

# Canllaw / Key

**E** Mynedfa / Entrance  
**P** Parcio / Parking  
 Coed collddail / Deciduous trees

— Ffin y warchodfa / Reserve boundary  
 - - - Llwybr troed cyhoeddus / Public footpath

- - - Llwybr caniataol / Permissible path  
 = Ffordd fechan / Minor road



Glaswelltir / Grassland

Adeiledig / Built

Coetir collddail / Deciduous woodland

Craig / Rock

## Mynediad a diogelwch

Mae llawer o'r safle'n serth ac yn greigiog ac nid oes arwyneb ar bob llwybr. Cadwch draw oddi wrth yr ymylon serth ar y copa!

## Access and safety



Much of the site is steep and craggy and all paths are unsurfaced. Stay away from the steep drops at the summit!

## Ble nesaf?

Coed Cilygroeslwyd (2 filltir) i weld un o'n gwarchodfeydd natur cyntaf ni, sy'n gyforiog o fywyd gwyllt.

## Where next?

Coed Cilygroeslwyd (2 miles) for one of our first nature reserves, brimming with wildlife.



## Rheoli Bywyd Gwylt

Mae'r Ymddiriedolaeth Natur yn torri y prysgwydd sydd yn gordyfu o gwmpas y glaswelltir a'r galchbalmant noeth ar y rhan uchaf o'r warchodfa i reoli'r cynefinoedd bwysig yma. Mae'r coetir yn cael ei theneuo yn strategol er mwyn hybu tyfiant rhai coed ac i gynyddu y mwyafrif y coed marw sydd wedi disgyn ac hefyd sy'n sefyll. Rydym yn gwarchod y coed mawr i sicrhau eu bod yn aeddfedu i'w llawn twf ac yn datblygu yn goed hynafol gwerthfawr. Gosodwyd focsys i'r pathew ac i nifer eang o rywogaethau adar.



ANNE LEWIS

## Managing for wildlife

The Wildlife Trust cuts back encroaching scrub around the grassland and bare limestone pavement at the top of the reserve to maintain these important habitats. The woodland is strategically thinned to promote the growth of certain trees and increase the abundance of both fallen and standing deadwood. Large trees are cared for to ensure they reach maturity and develop into valuable veteran. Boxes have been provided for hazel dormice and a range of bird species.

In partnership with / Mewn partneriaeth â:



Mewn Partneriaeth â  
**Llywodraeth Cymru**  
In Partnership with  
**Welsh Government**

### GWANWYN

Clychau'r Gog >  
Tegeirian coch y gwanwyn  
Garleg gwylt

### SPRING

Bluebell >  
Early purple orchid  
Wild garlic

### HAF

Tegeirian llydanwyrdd mwyaf  
Glöyn byw y gweirlöyn brych >  
Cywion y dylluan frec

### SUMMER

Greater-butterfly orchid  
Speckled wood butterfly >  
Tawny owl chicks

### HYDREF

Ffyngau  
Eirin tagu >  
Lliwiau'r coetir

### AUTUMN

Fungi  
Sloes >  
Woodland colours

### GAEAF

Cynffonnau wŷn bac >  
Bwncathod  
Bronfreithod y gaeaf

### WINTER

Hazel catkins >  
Buzzards  
Winter thrushes

## Da ni angen eich cefnogaeth!

Un o mwy na 30 Gwarchodfa Natur sydd yn berchen i, neu sydd yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Trwy weithio gyda thirfeddianwyr, rheolwyr a chymunedau rydym yn anelu i adfer, ail greu ac ailgysylltu cynefinoedd rhanedig er mwyn cyflawni tirwedd ble all fywyd gwylt ffynnu a ble all pobl fyw bywydau fwy iachus a hapus.

Rydyn ni'n elusen annibynnol, leol sy'n dibynnu ar gefnogaeth ein haelodau a rhoddion eraill. **Plis helpwch ni os yw hynny'n bosib.**

- ✓ **Dod yn aelod** am ddim ond ychydig bunnoedd bob mis
- ✓ **Gwirfoddolwr** – yma neu yn un o'n gwarchodfeydd natur eraill
- ✓ **Gadewch Waddol** – fe fydd pob rhodd ym mhob Ewyllys, boed yn fach neu'n fawr, yn gwneud gwahaniaeth i'ch bywyd gwylt lleol



## We need your support!

This nature reserve is one of more than 30 owned or managed by North Wales Wildlife Trust. By working with other landowners, managers and communities we aim to restore, recreate and reconnect fragmented natural

habitats to achieve a landscape where wildlife can flourish and people can lead happier and healthier lives.

We are an independent, local charity, reliant on the support of our members and other donations. **Please help us if you can.**

- ✓ **Become a member** for just a few pounds a month
- ✓ **Volunteer** – whether here or at one of our other nature reserves
- ✓ **Leave a Legacy** – every gift in every Will, however large or small, makes a difference to your local wildlife

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk)